Digwyddiadau Dysgu

Beth yw'r diben?

Deall yr hyn sydd wedi digwydd

Ystyried sut y gwnaed rhai asesiadau a phenderfyniadau

Adolygu'r hyn y gellir ei ddysgu i'r dyfodol

Os ydych am ddysgu mwy, cysylltwch ag:
Aelod panel eich asiantaeth
neu
Uned Diogelu Busnes
Bwrdd Diogelu Plant Caerdydd a Bro Morgannwg

Byrddau Diogelu
Caerdydd a Bro Morgannwg
Ystafell 342, Neuadd y Sir
Caerdydd
CF10 4UW
Ffôn: 02920871891
E-bost:
bdrhcaerdyddarfro@caerdydd.gov.uk

DIGWYDDIADAU DYSGU ADOLYGIADAU ARFER PLANT

BETH MAE ANGEN I CHI EI WYBOD WRTH FYND I DDIGWYDDIAD DYSGU:
TAFLEN AR GYFER YMARFERWYR

Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol
Caerdydd a Bro Morgannwg
Cardiff and Vale of Glamorgan
Regional Safeguarding Children Board

Beth yw Adolygiad Arfer Plant?

Mae Adolygiadau Arfer Plant wedi cymryd lle'r Adolygiadau Achos Difrifol a dyma'r trefniadau newydd ar gyfer cynnal adolygiadau aml-asiantaeth yn achos digwyddiad sylweddol lle gwyddys neu amheuir bod plentyn sy'n agored i niwed wedi bod yn destun camdriniaeth neu esgeulustod. Am ragor o arweiniad, cysylltwch ag Uned Fusnes Byrddau Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro ar 02920871891 neu e-bostiwch bdrhcaerdyddarfro@caerdydd.gov.uk.

Mae'r fframwaith newydd hwn bellach yn sicrhau bod asiantaethau, staff a theuluoedd yn adolygu mewn dull mwy cydweithredol er mwyn myfyrio ar yr hyn sydd wedi digwydd a dysgu ohono.

Beth yw'r broses ar gyfer cynnal Adolygiad Arfer Plant?

Sefydlir panel aml-asiantaeth sy'n cynnwys staff uwch o bob asiantaeth perthnasol. Mae'r panel hwn yn casglu'r holl wybodaeth er mwyn datblygu llinell amser o ddigwyddiadau pwysig. Fel arfer gwneir hyn trwy archwilio cofnodion yr asiantaethau. Elfen bwysig arall o'r broses hon yw hwyluso digwyddiad dysgu ar gyfer ymarferwyr dan arweiniad adolygwr annibynnol. Daw'r digwyddiad hwn â'r ymarferwyr a fu'n ymwneud â'r achos ynghyd er mwyn iddynt allu rhannu eu dealltwriaeth o'r hyn a ddigwyddodd a nodi'r prif bwyntiau dysgu.

Sut y dylwn baratoi ar gyfer Digwyddiad Dysgu?

Dylai ymarferwyr fod yn barod i rannu eu profiadau, amlygu arfer da a nodi unrhyw bwyntiau i'w dysgu ar gyfer arfer yn y dyfodol. Cyn y digwyddiad, cynghorir ymarferwyr i adolygu'r cofnodion achos (os ydynt ar gael) ac ymgyfarwyddo â'r achos. Bydd eich aelod panel yn gyfrifol am gynnig cyngor a chymorth cyn ac wedi'r digwyddiad dysgu. Mae'n bosibl y bydd adegau pan gynhelir dau ddigwyddiad dysgu ar wahân, ar gyfer rheolwyr ac ymarferwyr.

Beth sy'n digwydd yn y Digwyddiad Dysgu?

Gall adolygu achosion difrifol beri pryder i unigolion ac i sefydliadau a all arwain at ymddygiad amddiffynnol a diffyg gallu myfyrio. Hwylusydd profiadol fydd yn arwain y digwyddiad a'i rôl fydd creu amgylchedd diogel i alluogi'r ymarferwyr i fyfyrio, cyfranogi a dysgu.

Mae pob digwyddiad dysgu'n wahanol ond mae'n debyg y bydd yn cynnwys gwaith grŵp a sesiynau adborth a fydd yn annog rhannu profiad, gwybodaeth a myfyrdodau'r ymarferwyr am yr achos. Bydd yr adolygwyr yn hwyluso/galluogi ymarferwyr i ystyried ffactorau sefydliadol neu eraill sydd wedi effeithio ar yr achos. Beth sy'n digwydd nesaf? Yn dilyn y digwyddiad dysgu, mae gan yr adolygydd gyfrifoldeb dros gasglu a dadansoddi popeth a ddysgwyd mewn cysylltiad â'r llinell amser a'r hyn a ddywedodd y teulu er mwyn llunio adroddiad cyflawn. Yna, caiff hwn ei gyflwyno i Fwrdd Diogelu Plant Caerdydd a'r Fro i gytuno a gweithredu arno. Anfonir copi hefyd i Lywodraeth Cymru. Caiff yr adroddiad ei gyhoeddi ar wefan Bwrdd Diogelu Plant Caerdydd a'r Fro am 12 wythnos. Bydd eich aelod panel yn rhoi gwybod i chi am y manylion cyhoeddi.